

Cymuned Budd Cymunedol Cyf Y Cross Cas-lai

Prospectws y Cynnig Cyfranddaliadau



Gellir cael copi Saesneg o'r ddogfen hon drwy gysylltu â...

A request for a copy of this document in English can be made at

www.ycrossinn.cymru

Gwybodaeth Bwysig

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion am Gyfranddaliadau yng Nghymdeithas Budd Cymunedol Y Cross Cas-lai Cyf ("y Gymdeithas"), sy'n bodoli er budd y gymuned, a gwahoddiad i danysgrifio i'r Cyfranddaliadau hynny.

Mae copi o reolau'r Gymdeithas ar gael ar ein gwefan www.ycrossinn.cymru.

Mae'r Gymdeithas wedi'i chofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), ond nid yw gwerthu cyfranddaliadau cymunedol yn cael ei reoleiddio gan yr FCA. Fel llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol mewn perygl, a gallech golli'r holl arian rydych chi'n ei fuddsoddi neu ran ohono. Yn wahanol i gyfrifon gyda banciau'r stryd fawr, nid yw cyfranddaliadau cymunedol yn dod o dan y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol, ac nid oes chwaith unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Os ydych yn ystyried buddsoddi swm sylweddol, yna efallai y byddwch yn dymuno gofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.

Dylid darllen y ddogfen hon yn ei chyfanrwydd. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r camau y dylech eu cymryd, argymhellir eich bod yn gofyn am eich cyngor ariannol annibynnol eich hun. Nid oes dim yn y ddogfen hon yn gyfystyr â buddsoddiad, treth, cyngor cyfreithiol na chyngor arall gan y Gymdeithas, ei haelodau sy'n ffurfio'r Pwyllgor Rheoli na'r sawl sydd yn eu cynghori.

CYNNWYS

1. Cyflwyniad	4
2. Crynodeb y Cynnig Cyfranddaliadau	5
3. Y Cross Cas-lai a'n Cymuned	5
4. Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd.....	6
5. Bod yn berchen ar Gyfranddaliadau	9
6. Model Busnes	12
7. Rheoli'r Gymdeithas.....	15
8. Gweithgareddau Allweddol	16
9. Y Pwyllgor Rheoli a'r Aelodau Sefydlu.....	16
10. Sut i Ymgeisio am Gyfranddaliadau.....	19

1. Cyflwyniad

Cymuned fechan yng nghefn gwlad gogledd-orllewin Sir Benfro yw Cas-lai, a leolir yng nghysgod Mynydd Plumstone, tua saith milltir i'r gogledd o dref sirol Hwlfordd, filltir o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a thua phum milltir o'r arfordir. Mae preswylwyr y gymuned yn byw yn bennaf yng Nghroes Cas-lai a Phont-Y-Hafod.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd dwy siop yn y gymuned a'r Swyddfa Post yn cau, yn ogystal â'r orsaf betrol a'r garej. Fe gaeodd ysgol y pentref yn 2010. Mae'r Cross Inn, sydd wedi cael ei redeg yn barhaus gan deulu Phillips ers dros 160 o flynyddoedd, yn parhau ar agor. Mae Eglwys Cas-lai a Chapel Noddfa Newton yn parhau i gynnal gwasanaethau rheolaidd i drigolion y gymuned.

Mae'r Cross Inn, Cas-lai wedi bod yn dod â'n cymuned at ei gilydd ers dros 160 o flynyddoedd. Mae wedi darparu lle i deuluoedd a ffrindiau ddod at ei gilydd i fwynhau bwyd, diod, a chwmmi gwych.

Un teulu sydd wedi rhedeg y dafarn ers 1861 ac ar hyn o bryd Angela a Wayne Phillips sydd yn berchen arni. Mae'r perchnogion presennol eisiau newid eu ffordd o fyw ac maent wedi rhoi'r dafarn ar werth. Yn anffodus ar ôl dwy flynedd ac ar ôl gostwng y pris yn sylweddol nid dynt wedi cael unrhyw gynigion cadarnhaol. Mae'n hawdd deall felly pam fod y perchnogion presennol yn ystyried opsiynau eraill i werthu'r eiddo fel busnes gweithredol.

Yn ystod haf 2022 daeth grŵp bach, gydag ystod amrywiol o sgiliau a phrofiad, at ei gilydd i weld a fyddai'n ymarferol prynu'r dafarn a'i rhedeg fel menter gymunedol, oherwydd eu bod yn pryderu am ddyfodol y dafarn a'r ffaith y gallai gau. Tyfodd y grŵp o ddau i bedwar, o bedwar i wyth, ac o wyth i bymtheg. Ers hynny, maen nhw wedi llwyddo i ffurfio Cymdeithas Budd Cymunedol, gan ddwyn ysbrydoliaeth gan fentrau tebyg eraill ledled Cymru a Lloegr.

Gyda chefnogaeth Cwmpas, cofrestrwyd Y Cross Cas-lai fel Cymdeithas Budd Cymunedol yn Ionawr 2023. Rhif cofrestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yw 9002.

Pris y dafarn ar hyn o bryd yw £299,500. Cynhaliwyd arolwg eiddo ar ddiwedd 2022 ac awgrymodd y syrfêwr werth is o £275,000. Cytunwyd ar bris prynu £292,500 gyda'r gwerthwyr i gynnwys pob gosodiad, ffitiad a dodrefnyn, ond heb gynnwys stoc.

Ar 15 Awst 2022, cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf, lle daeth y gymuned leol a chynrychiolwyr gwahanol fudiadau a chymdeithasau lleol ynghyd i rannu syniadau, a thrafod potensial y Cross Inn fel tafarn a oedd yn berchen gan y gymuned. Dilynwyd hyn gyda holiadur a gynhyrchodd 90 o ymatebion.

Yn dilyn hyn cynhaliwyd ail gyfarfod cyhoeddus yng Nghapel Newton ar 27 Medi 2022 i rannu gwybodaeth ac ateb ymholiadau am y fenter. Yn y cyfarfod hwn cafodd yr enwebiadau eu cyflwyno ar gyfer rolau aelodau allweddol y pwyllgor. Cytunwyd hefyd y byddem yn parhau i werthuso dichonoldeb y prosiect hwn a chynnal cyfarfod cyhoeddus arall ddiwedd mis Ionawr i wneud penderfyniad p'un ai i fentro neu beidio.

Yn y trydydd cyfarfod cyhoeddus ar 24 Ionawr, gyda dros 100 o aelodau'r gymuned yn bresennol, cafwyd pleidlais unfrydol i fwrw ymlaen â'r prosiect.

Mae'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y gweithgareddau ymgysylltu hyn yn dangos bod cryn gefnogaeth i'r fenter yn y gymuned leol. O'r rhai ymatebodd i holiadur nododd 60% eu bod yn credu ei bod yn 'bwysicaf' i'r Cross Inn aros fel tafarn sydd hefyd yn gweithredu fel canolfan gymunedol leol a nododd 50% fod ganddynt ddi-ddordeb mewn prynu cyfranddaliadau.




Mae'r perchnogion presennol wedi bod yn gwbl gefnogol i'r cysyniad o berchnogaeth gymunedol ers i rai o aelodau sefydlu'r Gymdeithas awgrymu'r syniad y llynedd, a hoffai'r Gymdeithas ddiolch iddynt am eu cefnogaeth a'u hamynedd trwy gydol y broses.


Ein hamcan yw sefydlu tafarn gymunedol sydd yn gadarn yn ariannol ac yn fasnachol, gan ddarparu profiad lleol o ansawdd uchel o ran bwyta ac yfed, yn ogystal â chanolfan ganolog sydd o fantais i'r gymuned ac sydd yn dod â'r gymuned a gwasanaethau ynghyd.

2. Crynodeb y Cynnig Cyfranddaliadau

- £50 yw pris pob cyfranddaliad
- Lleiafswm pob buddsoddiad unigol £250 (5 cyfranddaliad)
- Mwyafswm pob buddsoddiad unigol £25,000 (500 cyfranddaliad)
- Lleiafswm o ran nod - £200,000 (4000 o gyfranddaliadau a gyflenwyd)
- Cynnig Cyfranddaliadau (nod delfrydol) - £250,000 (5000 o gyfranddaliadau)
- Mwyafswm o ran nod - £300,000 (6000 o gyfranddaliadau a gyflenwyd)



Amserlen y Cynnig Cyfranddaliadau



(* Os bydd angen, mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ymestyn cyfnod y Cynnig Cyfranddaliadau am ddwy wythnos yn rhagor o 7 Mai hyd nes 21 Mai i hwyluso cyrraedd y nod cyfalaf cyfranddaliadau.

3. Y Cross Cas-lai a'n Cymuned

Yn unol â diwylliant Cymreig gref ein cymuned enw'r dafarn fydd Y Cross, Cas-lai sy'n gyfystyr â'r enw Saesneg, The Cross Inn.

Ffurfiwyd Cymdeithas Budd Cymunedol Y Cross Cas-lai i alluogi pobl Cas-lai a'r gymuned ehangach i ddiogelu dyfodol y Cross Inn.

Mae Cymdeithas Budd Cymunedol yn fusnes corfforaethol unigryw sydd yn berchen i'r gymuned leol ac yn cael ei redeg er lles y gymuned honno, yn hytrach nag er elw preifat. Ein nod yw prynu'r Cross Inn a'i atgyweirio a'i redeg fel tafarn a thŷ bwyta, ac fel canolfan fywiog i gynnal pob math o weithgareddau

cymunedol a gwasanaethau. Rydym yn bwriadu estyn croeso i bobl leol a'r gymuned ehangach ac i bobl sydd ddim wedi defnyddio'r dafarn o'r blaen.

Mae'r dafarn ei hun yn lle hanesyddol ac yn naturiol -ddiwylliedig ac mae yma nodweddion a fyddai'n anodd iawn eu hailgreu. Bydd prynu'r Cross Inn yn ffordd o hyrwyddo a chryfhau'r uchod ac mae hyn wrth galon amcanion y Gymdeithas.

Credwn fod y Cross Inn yn ased cymunedol hanfodol ac mai'r ffordd orau o warchod ei werth a'i fanteision yw i Gymdeithas Budd Cymunedol fel yr un sydd gennym ni fod yn berchen arno a'i redeg. Mae yma gyfle unigryw i ni fod yn berchen ar ran bwysig o ffordd o fyw yn ein hardal.

Ond mae'n rhaid codi arian i wireddu ein gweledigaeth.

Aelodau'r gymuned leol yw prif ffynhonnell ein cyllid, ac nawr mae'n bosib iddyn nhw, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd ymaelodi yn y Gymdeithas a phrynu cyfranddaliadau ynddi a chael dweud ei dweud. Yn hanesyddol mae'n cymuned leol bob tro wedi gwneud pob peth yn annibynnol - mae'r Coetir Cymunedol, Clwb Ffermwyr Ifanc a nifer o gymdeithasau gwirfoddol lleol yn enghreifftiau da . Rydym felly yn hyderus fod gan pobl Cas-lai yr wybodaeth arbenigol a'r awydd i lwyddo yn y fenter hon.

Byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd i fanteisio ar grantiau gan lywodraeth leol a llywodraeth cenedlaethol, a chan ymddiriedolaethau elusenol ac annibynnol.

4. Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

Mae Cymdeithas Budd Cymunedol Y Cross Cas-lai wedi ei chreu gan bobl leol i ddiogelu dyfodol Y Cross yng Nghas-lai, Sir Benfro ac i sicrhau ei fod yn parhau yn hyb cymunedol sydd o fudd i'r gymuned leol. Mae hyn yng nghyd-destun nifer o dafarndai lleol sy'n wynebu bygythiad cau, ac mae hyn yn achosi pryder.

Ein Gwerthoedd a'n Gweledigaeth - Yr Hyn Rydym am Ei Weld, a'r Hyn sy'n Bwysig i Ni

Ein Gweledigaeth

- Sicrhau bod Y Cross Inn yn parhau wrth galon ein cymuned fywiog
- Bod yn lle i bobl o bob oed gymdeithasu, un ai yn y bar traddodiadol neu yn y 'Cwtsh' sydd newydd ei ailwampio. Bydd hyn yn creu amgylchedd croesawgar a chyfeillgar i deuluoedd i gyd-fynd â'r bar mwy traddodiadol
- Bod yn ofod cyfforddus a chroesawgar i bobl leol a chymdeithasau ei ddefnyddio
- Cynnal nosweithiau Cymraeg a nosweithiau cymdeithasol
- Cefnogi busnesau lleol a chreu partneriaethau â chwmnïau a chymdeithasau lleol
- Cynnig bwyd a diod, gan ddefnyddio cynnyrch lleol
- Sicrhau swyddi a hyfforddiant i bobl leol, hen ac ifanc, a'i cefnogi i gyrraedd eu llawn potensial

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y Cross Inn wedi ei seilio ar adnewyddu rhannau o'r adeilad i greu:

Rydym am warchod cymeriad y bar. Rydym yn rhagweld y bydd rhaid gwella a moderneiddio gan gynnwys ffyrdd o redeg y busnes sydd yn fwy effeithlon o ran ynni, ond rydym yn bwriadu gwneud hyn heb gollir teimlad traddodiadol cyfredol sydd yma'n barod, gan fod hyn yn rhan bwysig o'r busnes ac yn hanfodol i'r sawl sy'n dod yma'n rheolaidd.

Adnewyddu'r 'Ystafell Fwyta' i greu 'Y Cwtsh'. Yma byddwn yn cynnal, digwyddiadau cymunedol, digwyddiadau teuluol, cyfarfodydd cymdeithasol ac yn gweini prydau bwyd ayyb. Bydd yma naws mwy croesawgar a llai ffurfiol na'r bar mwy traddodiadol.

Gwneud gwelliannau fel bo angen i'r adeiladwaith presennol, gan gynnwys gwelliannau i systemau gwresogi a thrydanol ayyb a gwella safon presennol yr insiweiddio a mesurau eraill a fydd yn lleihau'r ôl troed carbon a sicrhau cynaliadwyedd y fenter yn y dyfodol.

Creu gardd gwrw ddeniadol a fydd yn croesawu teuluoedd

Ail-greu rhai o wasanaethau a chyfleusterau blaenorol sydd bellach wedi diflannu o'r pentre. Gallai hyn gynnwys siop, caffi, a swyddfa bost, ac rydym wedi gweld eu heisiau nhw'n fawr.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal grwpiau trafod cymunedol i helpu llunio a manylu ar gynlluniau ein hwb cymunedol. Byddwn yn dechrau gyda menter fach ac yn ehangu dim ond pan fydd y gwasanaethau dechreuol yn llwyddiannus ac yn profi y gellir eu cynnal yn llawn yn ariannol.

Diwylliant



Bydd rhedeg Y Cross Cas-lai fel tafarn gymunedol yn gyfle unigryw i Cas-lai, Croes Cas-lai a'r gymuned ehangach gael canolbwynt gwerthfawr a fydd yn rhoi hwb i'r gymuned sydd eisoes yn weithgar ac yn groesawgar.

Os llwyddwn gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth i'r Cross Inn a mwy. Gallai rhedeg menter lwyddiannus rannu'r ysbryd ac egni o gyd-greu'r dyfodol ledled y gymuned. Gallai roi hwb i'n diwylliant a'n ffordd o fyw yn yr ardal wledig hon, ar adeg pan fo ei angen yn fwy nag erioed. Gallwn hyd yn oed ysbrydoli eraill i fod yn berchen ar ddyfodol eu hasedau lleol. Fodd bynnag, mae angen i bawb fuddsoddi, fel y gallwn i gyd wneud gwahaniaeth. Mae'n rhaid i ni roi terfyn ar gau tafarndai yn Sir Benfro, digwyddiad sydd yn fythol-gynyddu. Tra bo tafarndai eraill wedi cau yn ddiweddar, fel y Gwesty yng Nghasmorys a'r Drovers yng Nghas-mael, credwn y bydd ein hymgyrch ni yn sicrhau y bydd yn parhau yn hyfyw ac yn fywiog.

Cymdeithas

- Man i gymdeithasu dros beint neu wrth fwyta
- Man cyfarfod i ystod eang o glybiau, grwpiau a chymdeithasau
- Man diogel, hygyrch a chroesawgar i helpu mynd i'r afael ag unigrwydd cymdeithasol mewn cymuned wledig



Economi

- Creu cyfleoedd gwaith i bobl leol.
- Creu cyfleoedd gwaith i grefftwyr a masnachwyr lleol.
- Cefnogi ffermwyr lleol a chynhyrchwyr bwyd a diod.
- Hyrwyddo a thynnu sylw at fusnesau lleol sy'n ein cefnogi ni yn y fenter gyffrous hon.

Yn ystod y chwe mis diwethaf rydym wedi gwerthuso'n ofalus wendidau a rhinweddau Y Cross ac wedi ystyried a yw'n gallu gwireddu ein hamcanion. Mae ein hamcanestyniadau yn dangos y gallwn ei sefydlu yn fusnes llewyrchus a'i redeg er budd y gymuned.

Mae prynu'r dafarn hefyd yn cynnwys prynu llety helaeth pedair llofft i'r perchnogion. Rydym yn ystyried sawl opsiwn ar gyfer y llety, gan gynnwys ei ddefnyddio fel llety rheolwr, neu ei adnewyddu a'i osod i greu incwm, neu o bosib fel llety gwyliau.

Yn y man byddwn yn penodi Rheolwr Cyffredinol i redeg y bar a'r tŷ bwyta, a byddwn hefyd yn penodi cogydd a staff rhan-amser i weithio yno. Ein nod yw parhau i gynnig gwaith, profiad a chyfleoedd o ran hyfforddiant i bobl yr ardal, boed nhw'n hen neu ifanc. Fodd bynnag, rydym hefyd yn rhag-weld y bydd yno gyfleoedd o ran gwirfoddoli i weithio sifftiau achlysurol yn y bar neu'r tŷ bwyta a bydd hyn yn werthfawr o ran sicrhau bod y fenter yn parhau ac yn sicrhau budd cymdeithasol.

Y Rheolwr Cyffredinol fydd rheolwr llinell y staff a bydd yn cydlynu unrhyw wirfoddolwyr a fydd eu hangen i fod o gymorth ar wahanol adegau; bydd y rheolwr yn atebol yn rheolaidd i gynrychiolwyr y pwyllgor. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am lywodraethu, staffio a chyflogau yn ein Cynllun Busnes a'n Cynllun Ariannol Cyllidebol annibynnol.

Ymhen amser, mae'n bosibl y byddwn yn ymgeisio am grantiau i benodi Swyddog Datblygu a fydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, ar drefnu digwyddiadau rheolaidd, ar greu cysylltiadau â gwahanol rhanddeiliaid, ar drefnu rhaglen ddatblygu sgiliau ac a fydd yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Gallai'r Swyddog Datblygu fod yn gyfrifol am recriwtio gwirfoddolwyr, cyfathrebu a marchnata ac ymgeisio am grantiau i ariannu unrhyw waith datblygu arall.

Ymhle os nad Y Cross? Pryd, os nad nawr? Pwy os nad y ni?

5. Bod yn berchen ar Gyfranddaliadau

Ein nod yw galluogi'r gymuned leol i brynu'r Cross Inn, Croes Cas-lai i sicrhau ei fod yn parhau'n fywiog ac yn fasnachol hyfyw o dan amodau heriol yn y farchnad ac i redeg y dafarn fel cwmni cydweithredol sy'n cael ei arwain gan y gymuned ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Bydd Y Gymdeithas yn cael ei rheoli gan Bwyllgor Rheoli a fydd yn cael ei ethol bob blwyddyn gan yr aelodau.

Dyma gyfle i fuddsoddi yn gymdeithasol i gefnogi a diogelu parhad hirdymor yr ased cymunedol olaf sydd ar agor bob dydd i'w ddefnyddio gan bob aelod o'r gymuned. Gallwch ddod yn rhan o'r fenter drwy fuddsoddi a phrynu cyfranddaliadau. Bydd y cyfranddaliadau yn galluogi i ni brynu, adnewyddu a gweithredu'r safle.

I fod yn aelod rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn. Caniateir aelodau corfforaethol os ydynt yn cefnogi buddiannau'r Gymdeithas a'i phwrpas. Trwy brynu cyfranddaliadau a buddsoddi yn eich cymuned, byddwch yn dod yn aelod o'r Gymdeithas gan roi rhan berchnogaeth o'r dafarn i chi a chyfle i ddweud eich dweud am sut mae'n cael ei redeg er budd y gymuned. Sail y Gymdeithas yw un bleidlais i bob aelod. Golyga hyn y bydd pob aelod yn cael cyfle cyfartal i ddweud eu dweud ar sut y dylid rhedeg eu tafarn gymunedol waeth faint yw nifer y cyfranddaliadau a brynwyd ganddynt.

Bydd y cynnig cyfranddaliadau hwn yn agor ddydd Llun 27 Mawrth 2023, a bydd yn rhedeg hyd ddiwedd dydd Sul 7 Mai 2023. Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ymestyn y cyfnod agoriadol hwn i'r 21 Mai pe bai'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i gyrraedd y nod o ran cyfalaf cyfranddaliadau.

Mae pob cyfranddaliad yn werth £50. Lleiafswm y cyfranddaliadaeth fydd 5 cyfranddaliad (£250) a'r mwyafswm fydd 500 o gyfranddaliadau (£25,000).

Gellir prynu cyfranddaliadau yn rhodd i blentyn dan 16 oed. Fodd bynnag bydd y cyfranddaliadau'n cael eu cadw yn enw'r rhoddwr a rhaid cofrestru manylion llawn y derbynnydd gyda'r Gymdeithas. Rhaid i'r rhoddwr enwebu'r derbynnydd fel ei fuddiolwr. Pan fydd y derbynnydd yn gymwys i ddod yn aelod o'r Gymdeithas yna gellir trosglwyddo'r cyfranddaliadau o'r rhoddwr i'r derbynnydd drwy ddilyn rheolau'r Gymdeithas am godi cyfranddaliadau ac ail-fuddsoddi.

Rhaid talu'n llawn am gyfranddaliadau wrth ymgeisio. Os hoffech dalu am eich cyfranddaliadau dros gyfnod o amser, cysylltwch â ni i drafod y posibilïadau.

Bydd gwerthu Cyfranddaliadau Cymunedol yn elfen allweddol o ariannu'r prosiect a hefyd yn ddangosydd pwysig o gefnogaeth gymunedol a'r galw am y cyfleusterau y mae'n bwriadu eu darparu.

Nod y cynnig cyfranddaliadau yw codi isafswm o £200,000 gyda tharged gorau posibl o £250,000 ac uchafswm o £300,000. Mae'r isafswm wedi'i ddewis oherwydd dyma'r swm isaf lle gallai'r prosiect barhau i fod yn hyfyw er ei fod yn ddibynnol iawn ar sicrhau cyllid grant i gyrraedd y targed llawn.

Mae'r targed gorau posibl o £250k yn cynrychioli ffigwr cadarn y credwn ei fod yn gyraeddadwy ac sy'n lleihau ein dibyniaeth ar gyllid grant ac yn gwella'r gronfa gyfalaf sydd ar gael.

Byddai'r uchafswm o £300k yn ein galluogi ni i brynu'r dafarn yn syth gyda chyllid grant ei angen ond ar gyfer y sgôp uwchraddio a'r cyfalaf gweithio yn y flwyddyn gyntaf.

Amcangyfrifir mai tua £468,475 fydd cyfanswm cost y prosiect, gan gynnwys cost prynu'r eiddo ynghyd ag ailddatblygu.

Rydym yn anelu at godi cyfanswm o £615,000 o leiaf trwy'r cynnig cyfranddaliadau a grantiau tebyg i ymgymryd â'r cwmpas llawn a darparu cronfa gyfalaf o hyd at £146,525. Mae'r Gronfa Gyfalaf hon yn ymddangos yn ormodol ond mae'n seiliedig ar gael yr uchafswm o grantiau sydd ar gael, ac efallai na fydd hynny'n digwydd.

Crynodeb

Lansio'r Cynnig Cyfranddaliadau	27 Mawrth 2023
Dyddiad cau y Cynnig Cyfranddaliadau	7 Mai 2023
Nod Isaf	£200,000 (4000 o gyfranddaliadau)
Nod delfrydol	£250,000 (5000 o gyfranddaliadau)
Nod uchaf	£300,000 (6000 o gyfranddaliadau)
Gwerth Enwol Cyfranddaliadau	£50
Buddsoddiad lleiaf	£250 (5 cyfranddaliad)
Buddsoddiad mwyaf	£25,000 (500 o gyfranddaliadau)

Drwy brynu cyfranddaliadau byddwch yn dod yn Aelod o'r Gymdeithas a chewch lais yn y ffordd y caiff ei gweithredu. Mae gan pob aelod un bleidlais, ni waeth faint o gyfranddaliadau a brynwyd. Cost pob cyfranddaliad bydd £50. Lleiafswm y cyfranddaliadaeth yw £250 (5 cyfranddaliad) a'r mwyafswm yw £25,000 (500 cyfranddaliad).

Rhyddhad Treth (SITR a EIS)

Mae SITR (Rhyddhad Treth Buddsoddi Cymdeithasol) yn gynllun lle gall buddsoddiadau sy'n gymwys gael rhyddhad treth o hyd at 30% o'r gwerth buddsoddi, yn amodol ar gymeradwyaeth CThEM.

Fodd bynnag, bydd rhyddhad treth SITR yn dod i ben ar ôl 5 Ebrill 2023. Gall cyfranddaliadau a brynwyd ar 5 Ebrill neu cyn hynny fod yn gymwys i gael rhyddhad treth SITR yn amodol ar gymeradwyaeth CThEM. Ni fydd cyfranddaliadau a brynwyd ar ôl y 5 Ebrill yn gymwys i gael gostyngiad treth.

Bydd y Gymdeithas yn gofyn i CThEM am Sicrwydd o Flaen Llaw y bydd buddsoddiadau a wnaed ar 5 Ebrill 2023 neu cyn hynny trwy'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn yn gymwys i gael SITR.

Os derbynnir y sicrwydd hwn, yna maes o law gall y buddsoddwyr hynny sy'n drethdalwyr, gael credyd gan CThEM o 30% o'u buddsoddiad, drwy eu Hasesiad Treth blyneddol. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y bydd buddsoddiad o £1,000 ond yn costio £700 i'r buddsoddwr.

Bedwar mis ar ôl dechrau masnachu (tua dechrau 2024 mae'n debyg) bydd y Gymdeithas yn cyflwyno cais i'r CThEM sy'n rhoi manylion buddsoddiadau a wnaed gan unigolion ar neu cyn 5 Ebrill 2023. Bydd CThEM (gan dybio eu bod yn hapus gyda'r ffurflen a gyflwynwyd) yn cyflwyno'r Gymdeithas gyda llythyr yn cadarnhau y bydd SITR ar gael, ynghyd â thystysgrif cydymffurfio i bob buddsoddwr. Bydd y Gymdeithas yn anfon y dystysgrif hon at bob buddsoddwr sydd wedi gofyn am gopi ar eu ffurflen gais Cynnig Cyfranddaliadau. Yna rhaid iddynt hawlio eu rhyddhad treth naill ai drwy eu ffurflen dreth flynyddol neu drwy ofyn am god PAYE newydd gan CThEM.

I fod yn gymwys, rhaid i'r buddsoddwr gadw'r cyfranddaliadau am o leiaf 3 blynedd. Dylai buddsoddwyr sy'n ystyried buddsoddi ar y cyd ystyried a fyddai manteision treth wrth roi mwyafrif y buddsoddiad i'r person sy'n gallu manteisio orau ar y rhyddhad treth sydd ar gael. Ni fydd buddsoddwyr sydd ddim yn drethdalwyr yn gallu elwa o'r math hwn o ryddhad treth.

Mae'r Cynllun Buddsoddi Menter (EIS) yn gynllun amgen sy'n galluogi buddsoddiadau sy'n gymwys i hawlio gostyngiad treth.

Fodd bynnag, ers cyflwyno'r meini prawf 'risg i gyfalaf' ym mis Mawrth 2018, mae wedi bod yn gynyddol anodd i Gymdeithasau sy'n prynu tafarndai fod yn gymwys ar gyfer EIS. Mae hyn oherwydd bod yr amod 'risg i gyfalaf' yn ystyried prynu adeilad tafarn fel caffael ased cyfalaf sy'n debygol o gadw ei werth sy'n lliniaru'r risg sydd ynghlwm â gwneud buddsoddiad. O ganlyniad, oherwydd yr amod 'risg i gyfalaf' mae cymdeithasau budd cymunedol sy'n prynu eu tafarn yn annhebygol iawn o fod yn gymwys ar gyfer EIS.

Gall eich buddsoddiad mewn cyfranddaliadau yn y Gymdeithas hefyd fod yn gymwys ar gyfer rhyddhad treigl Treth Enillion Cyfalaf a / neu ryddhad busnes o dan reolau treth etifeddiaeth.

Rydym yn cynghori'n gryf eich bod yn cysylltu â'ch Cyfrifydd a/neu eich Ymgynghorydd Ariannol Annibynnol i gael cyngor cyn buddsoddi mewn cyfranddaliadau, neu gynllunio ar gyfer treth, neu hawlio unrhyw fath o ryddhad treth. Ni all y Gymdeithas warantu y bydd gostyngiad treth ar gael.

Taliadau Llog

Fel gydag unrhyw fusnes nod ein Cymdeithas yw bod yn broffidiol a chynnal ei hun yn ariannol. Fodd bynnag, nid ymdrech yw hwn i gynhyrchu elw mawr nac elw yn y tymor byr a dylid ei ystyried yn fuddsoddiad tymor hir yn ein cymuned. Y prif elw ar eich buddsoddiad fydd "difidend cymdeithasol" sef cadw ased cymunedol a chanolfan ganolog ar gyfer gwasanaethau, ymgysylltu'n gymdeithasol, a manteision i'r gymuned.

Ar ôl cwblhau tair blynedd lawn o fasnachu, ac os yw'r busnes yn rhedeg yn llwyddiannus a bod ganddo ddigon o arian dros ben, rydym yn gobeithio gallu talu llog blynyddol ar gyfranddaliadau aelodau hyd at uchafswm o 2%. Bydd taliad o 2.5% ym mlwyddyn 4, taliad o 3% ym mlwyddyn 5, a gobeithir cynnal taliadau o'r maint hwn yn barhaus. Mae hyn yn gwbl ddbynnol ar gyrraedd targedau proffidioldeb gofynnol. Bob blwyddyn bydd y pwyllgor yn cyflwyno argymhelliad ynghylch taliadau llog ar gyfranddaliadau i'w gymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Ail-Brynu Cyfranddaliadau

Ni ellir gwerthu na throsglwyddo cyfranddaliadau ac eithrio ar farwolaeth neu fethdaliad ac ni ellir gwreiddu eu gwerth heblaw ar gais i'r Gymdeithas ei hun am eu gwerth gwreiddiol.

Rhaid ariannu codi cyfranddaliadau o arian dros ben neu gyfalaf newydd a godwyd gan aelodau. Bydd angen i chi roi o leiaf dri mis o rybudd o'ch dymuniad i godi cyfranddaliadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad ydym yn rhagweld gallu caniatáu unrhyw godi cyfranddaliadau cyn Blwyddyn 5. Pan fydd modd ystyried ail-brynu cyfranddaliadau, bydd y Pwyllgor yn gosod meini prawf priodol a therfynau blynyddol. Mae'n bwysig deall y gall y Pwyllgor atal codi cyfranddaliadau yn ddibynnol ar fuddiannau tymor hir y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd digonol wrth gefn, a'r ymrwymiad i'r gymuned.

Lle bo cyfranddalwyr hefyd yn berchnogion busnesau, byddwn yn anelu at hyrwyddo eich busnes drwy noddi bwydlenni ein caffi, bar a Cwtsh yn rhad ac am ddim. Ein nod yw partneru gyda'r holl gyfranddalwyr busnes lleol ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar fentrau busnes eraill. Byddech mor garedig â buddsoddi i hyrwyddo eich busnes.

Rydym yn awyddus i dreialu gwahanol gynigion i werthuso eu heffaith ar werthiant a phroffidioldeb. Chi, fel cyfranddalwyr fydd yn elwa!

Clo Asedau

Mae Rheolau'r Gymdeithas yn cynnwys clo asedau sy'n gyfreithiol rwymol. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw enillion sy'n weddill ar ôl talu llog i'w chyfranddalwyr ac ar ôl ad-dalu unrhyw gyfalaf sy'n cael ei godi naill ai yn cael ei ail-fuddsoddi yn y busnes neu yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned leol neu ar gyfer achos elusennol neu gymunedol arall. Mae hyn yn golygu, pe bai'r Gymdeithas yn cau ond bod yr adeilad wedi cynyddu yn ei werth, y byddai'n bosib gwerthu'r asedau a dychwelyd cyfalaf i aelodau hyd at werth y buddsoddiadau gwreiddiol, ond nid i ddosbarthu unrhyw werth dros ben yn y ffordd honno.

Taliadau

Ni fydd cyfarwyddwyr nac aelodau yn elwa'n ariannol mewn unrhyw ffordd o weithgareddau'r Gymdeithas, heblaw drwy gymryd rhan yng nghynigion cyfranddaliadau a chynigion benthyciadau'r Gymdeithas. Fodd bynnag, bydd Cyfarwyddwyr ac aelodau yn cael trefnu cytundebau â'r Gymdeithas ac yn cael unrhyw log fydd yn cael ei dalu ar gyfranddaliadau.

Gwiriadau Diogelu Data ac Atal-Gwyngalchu Arian

Bydd yr holl ddata personol ar eich ffurflen lawn yn cael ei brosesu yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael ar y dudalen Cynnig Cyfranddaliadau ar wefan y gymuned. Nid yw Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007 yn berthnasol i gymdeithasau pan fyddant yn cyhoeddi cyfalaf cyfranddaliadau sy'n gallu cael eu codi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn yn dal i ddymuno cynnal gwiriadau adnabod ar ymgeiswyr nad ydynt

yn breswyl yn y DU. Byddwn yn cydnabod hunaniaeth ceisiadau preswylwyr y DU ac yn eu hystyried yn ddiogel pan fyddant yn talu drwy drosglwyddiad banc, drwy siec neu drwy archeb sefydlog gan fanc sydd wedi ei gofrestru yn y DU. Nodwch ein bod yn cadw'r hawl i ofyn am ddwy ffurf ar wahân o ddulliau adnabod gan gynnwys un llun.

6. Model Busnes

Mae'r model Cyllid Cyfalaf a Gwariant amlinellol fel a ganlyn: -

Gweler sawl ffynhonnell ariannu yn y tabl isod a allai ymddangos fel eu bod yn creu gormod o gyllid. Wrth gadarnhau sawl elfen, cynyddu'r cyfalaf cyfranddaliadau a chael cymorth grantiau yna bydd y cydbwysedd rhwng y cydrannau hyn yn dod i'r amlwg.

Cynnig Cyfranddaliadau Cyhoeddus	200,000
Codi arian (cymuned)	5,000
Cronfa Gymunedol Y Loteri Cenedlaethol	50,000
Cronfa Perchnogaeth Gymunedol llywodraeth y DU	200,000
Ariannu refeniw CPG 20% (mwyafrif o 50 mil)	40,000
Llywodraeth Cymru - Rhaglen Cyfleusterau Cymunedau	100,000
Grantiau bach eraill	20,000
CYFANSWM YR INCWM	615,000

GWARIANT	£
Adeilad	
Prynu Y Cross Cas-lai	292,500
Ffioedd proffesiynol	1,500
Treth Stamp	4,475
Atgyweirio'r adeilad	75,000
Cyfarpar	
Offer cegin	10,000
Offer bar	10,000
Offer arall	
Dodrefn a Defnyddiau Dodrefn	
Dodrefn bar a thŷ bwyta	10,000
Dodrefn	5,000
GWARIANT DI-GYFALAF	
Cyfalaf gweithio	30,000
Llog (100,000/12 mis/5%)	5,000
Gwariant di-gyfalaf arall	
Treuliau annisgwyl	25,000
CYFANSWM GWARIANT	468,475
WRTH GEFN (Yn weddill)	146,525

Gallwch lawrlwytho cynllun cyllid manwl am y pum mlynedd cyntaf o redeg y Cross Inn o www.ycrossinn.cymru Gallwch ofyn am gopi caled drwy anfon e-bost at enquiries@ycrossinn.cymru

Mae ein ffigurau'n deillio o ymchwilio i brofiad tafarndai gwledig mewn cymunedau tebyg sydd â chyfleusterau tebyg i'r rhai sydd gennym yn y Cross, yn ogystal â ffigurau masnachu hanesyddol. Rydym hefyd wedi cael cyngor gan bobl sydd â phrofiad helaeth yn y diwydiant, gan gynnwys y perchnogion presennol. Y nod yw creu busnes y gellir ei gynnal yn ariannol drwy gynhyrchu elw bychan erbyn diwedd blwyddyn dau a'i gynyddu wedi hynny i dyfu'r busnes yn raddol.

Rydym wedi gwneud dadansoddiad elw a cholled dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r dull gweithredu yn golygu bod yn geidwadol gyda rhagdybiaethau ynglŷn â thwf gwerthiant. Mae'r Gwerthiant a ragwelir yn y pum mlynedd cyntaf o fasnachu yn gyraeddadwy hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys incwm o osod y llety.

Dim ond trwy farchnata effeithiol y bydd y Gwerthiant a ragwelir yn cael ei gyflawni.

Mae colled masnachu yn digwydd yn y flwyddyn gyntaf (18 mis o fasnachu go iawn). Gwneir elw cymharol fach ar ddiwedd yr ail flwyddyn ac mae'r busnes yn hunangynhaliol yn ariannol erbyn diwedd blwyddyn 3.

Dyma ddata cychwynnol Elw a Cholled ac eithrio dibrisiant:

	2023-24 *	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28
Gwerthiant £	52,140	195,040	230,560	252,560	274,560
Costau Gwerthiant £	23,687	81,224	101,130	111,768	124,661
Elw gros £	28,453	113,816	129,430	140,792	149,899
Elw gros %	55%	58%	56%	56%	55%
Gorbenion £	48,176	104,819	113,286	117,520	121,753
Elw net £	-19,723	8,997	16,144	23,272	28,146
Elw argadwedig £	-19,723	-10,726	5,418	28,690	56,837

* Mae cyfnod 2023-24 yn cynrychioli 6 mis o fasnachu, ac mae pob ffigur yn net o TAW.

Mae blwyddyn ariannol y model yn rhedeg o 1 Chwefror i 31 Ionawr. Ar gyfer 2023 rydym yn rhagweld y bydd y busnes yn dechrau ym mis Awst 2023 ac mae'r data uchod yn cynrychioli 6 mis o fasnachu.

Mae'r holl ffigurau wedi cael eu croeswiro a'u dilysu gan Ashmole & Co, cyfrifwyr ardstyedig siartredig sydd wedi'u lleoli yn Hwlfordd.

Mae'r Costau Gwerthu yn seiliedig ar gyfraddau sy'n gyson â'r cyfraddau a gyhoeddwyd gan gymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain ar gyfer 2022.

Mae'r Gorbenion yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata gorbenion presennol y busnes yn 2022. Y prif wahaniaeth yw drwy ychwanegu costau llafur. Mae'r costau llafur hyn wedi cael eu cynyddu am y blynyddoedd diweddarach i adlewyrchu'r cynnydd o ran masnachu.

Nid ydym wedi cynnwys chwyddiant dros y pum mlynedd gyntaf ac mae'r ffigyrau uchod yn seiliedig ar werth cyfredol Arian y Dydd Ionawr 2023. Y gwir yw y bydd chwyddiant yn effeithio ar y ffigyrau a ddangosir ond bydd addasu prisiau gwerthiant cymaint â sydd yn ymarferol i dalu am gostau uwch yn lleddfu'r colledion hyn mewn amser real.

Mae'r Cynllun Busnes yn tybio bod ein hymdrechion i godi digon o gyllid yn llwyddiannus, boed hyn drwy gyfuniad o werthu cyfranddaliadau, sicrhau benthyciadau a grantiau tymor byr, a gweithgareddau eraill i godi arian.

Bydd ceisiadau am arian grant yn cael eu datblygu yn ystod y cyfnod cynnig cyfranddaliadau a thu hwnt, ond y bwriad yw cadw'r 'Cross Inn' ar agor drwy gydol y broses yn ei gyflwr presennol, gydag unrhyw waith datblygu a gwella wedi'i glustnodi ymhen tua 8 i 12 mis, yn ddibynnol ar lwyddiant ceisiadau am arian grant.

Cymorth i Ymgeisio am Arian Grant

Mae Cyngor Sir Benfro wedi cytuno i gynorthwyo gyda chefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynigion am gyllid grant. Rydym wedi cynnal sawl sgwrs gynhyrchiol gyda darpar ddarparwyr cyllid grant.

Isod gwelir rhai enghreifftiau o ffynonellau ariannu posibl ar gyfer y gwaith adnewyddu a datblygu adeiladau a ffynonellau ariannu posibl ar gyfer staffio:

Cronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y DU

Mae llywodraeth y DU wedi lansio Cronfa Perchnogaeth Gymunedol newydd gwerth £150 miliwn er mwyn helpu sicrhau bod cymunedau ledled Cymru, yr Alban, Lloegr, a Gogledd Iwerddon yn gallu cefnogi'r cyfleusterau lleol, yr asedau cymunedol a'r amwynderau sydd bwysicaf iddyn nhw a pharhau i elwa ohonynt. Bydd grwpiau cymunedol yn gallu cynnig am hyd at £250,000 o arian cyfatebol i'w helpu prynu neu gymryd awenau'r asedau cymunedol lleol sydd mewn perygl o gael eu colli, i'w cynnal fel busnesau sy'n eiddo i'r gymuned. Bydd y gronfa yn parhau tan 2024/2025. Bydd y cylch ceisiadau nesaf ar gyfer y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol yn debygol o agor ym mis Mai 2023 ac mae'r Pwyllgor yn gweithio tuag at gyflwyno cais yn y cylch hwnnw. Rydym eisoes wedi cael gwybod bod ein cais cychwynnol yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer ariannu yn y dyfodol.

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol - Pobl a Lleoedd

Mae'n cynnig cyllid o £100,001 i £500,000 ar gyfer prosiectau lle mae pobl a chymunedau yn cydweithio ac yn defnyddio eu cryfderau i gael effaith gadarnhaol ar y pethau sydd fwyaf pwysig iddyn nhw. Gall cronfa 'Pobl a Lleoedd' ariannu costau cyfalaf a referniw hyd at £500,000, fel offer, costau staff a chostau adnewyddu. Gall ariannu prosiectau am hyd at bum mlynedd.

Llywodraeth Cymru - Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Cynllun grantiau cyfalaf yw hwn sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel: grantiau bach dan £25,000 a grantiau mwy o hyd at £300,000. Gellir defnyddio grantiau i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned, ac sy'n cael eu defnyddio'n helaeth ganddynt.

Os bydd cymorth grant yn araf yn cyrraedd yna bydd y cynlluniau'n cael eu lleihau yn gymesur, a bydd rhannau unigol o'r datblygiad a ddisgrifir yma yn cael eu rhoi o'r neilltu neu eu gohirio nes y bydd cyllid ar gael.

Efallai y bydd angen benthyciadau cymunedol tymor byr yn y cyfnod dros dro i alluogi i'r Gymdeithas brynu'r dafarn pe bai unrhyw oedi cyn cael cyllid cyfatebol a gymeradwywyd gan y Gronfa Gymunedol. Bydd y benthyciadau hyn yn berson i berson a bydd aelodau'r gymuned yn ymgeisio amdanynt. Bydd y llog yn cael ei dalu ar gyfradd o 5% y flwyddyn sy'n cyfateb i gyfnod o naill ai 6 mis neu 12 mis.

Os yw'r incwm ariannu yn fach iawn, mae'r Pwyllgor yn hyderus y byddai gwaith atgyweirio sylfaenol ac adennill y safle fel y mae ar hyn o bryd, yn caniatáu i'r dafarn barhau ar agor. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn bennaf gan wirfoddolwyr a hwythau fydd yn gwasanaethu fel staff. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynrychioli ein gweledigaeth gyfan a'n huchelgais. Dylid ystyried y cynllun hyn yn un wrth gefn yn unig.

Ar yr amser priodol bydd cynllun terfynol yn cael ei roi i'r aelodau i'w gymeradwyo. Bydd hyn cyn i'r gwariant fod yn rhy fawr (heblaw am wario i brynu'r eiddo) a bydd yn seiliedig ar gyllid sydd wedi'i sicrhau.

Bydd unrhyw elw a gynhyrchir o fasnachu yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu'r eitemau sefydlog ac eitemau dewisol canlynol:

- Unrhyw rwymedigaethau o ran treth gorfforaeth
- Llog ar fenthyciadau
- Ad-dalu benthyciadau
- Cynnal a chadw'r safle
- Gwella a datblygu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau
- Llog ar gyfalaf cyfranddaliadau (yn ddelfrydol 2% ar ddiwedd blwyddyn 3, gan godi i 3% erbyn blwyddyn 5, ond bydd yr union swm yn ddibynnol ar elw.
- Hwyluso codi cyfranddaliadau o bryd i'w gilydd

Er mwyn gweithredu'n bwylllog, byddwn yn anelu at adeiladu cronfa gymedrol wrth gefn i dalu costau annisgwyl. Os na all y Gymdeithas gwblhau prynu'r Eiddo ac nad oes cynllun amgen wedi'i gymeradwyo gan yr aelodau, byddwn yn dychwelyd arian y cyfranddalwyr namyn unrhyw gostau gweinyddol, a bydd cynnig yn cael ei wneud i Gyfarfod Cyffredinol i roi'r gorau i'r Gymdeithas.

Sylwch fod rhagor o fanylion yn y Cynllun Busnes o sut y deilliodd y rhagolygon masnachu a'r ymchwil a'r rhagdybiaethau a wnaed.

7. Rheoli'r Gymdeithas

Er mwyn llwyddo a chynnal ei hun yn ariannol yn y tymor byr, mae'n allweddol i bob busnes gael trefn a llywodraethiant a'r gallu i addasu.

Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu Rheolau Model Cymdeithas Budd Cymunedol a luniwyd gan Cooperatives UK. Mae copi ar gael ar ein [gwefan](#) .

Mae gan Bwyllgor Rheoli'r Gymdeithas 14 o aelodau sefydlu a gallwch weld eu bywgraffiadau yn [Adran 9](#) . Mae pump o'r aelodau hyn yn gwasanaethu fel cyfarwyddwyr y Gymdeithas. Bydd y cyfarwyddwyr yn gwasanaethu tan y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyntaf (CCB) a gynhelir chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol gyntaf. Yna byddant yn rhoi'r gorau iddi a byddant yn gallu cynnig i gael eu hailethol ynghyd ag unrhyw gyfranddalwyr eraill yn y Gymdeithas. Bydd y rhai a etholwyd yn dechrau'r swydd yn syth a byddant yn gwasanaethu tan y CCB nesaf yn unol â rheolau'r Gymdeithas.

Bydd yr aelodau hynny sy'n ffurfio'r pwyllgor cychwynnol i gyd yn ymddeol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyntaf yn unol â Rheolau'r Gymdeithas ond gallant gynnig eu hunain i'w hailethol. Wedi hynny, bydd aelodau'r pwyllgor yn ymddeol yn raddol dros y tair blynedd ganlynol yn unol â rheolau'r Gymdeithas.

Y pwyllgor rheoli fydd yn gyfrifol am redeg y fenter o ddydd-i-ddydd, a hwythau fydd Cyfarwyddwyr cyfreithiol y Gymdeithas. Bydd penodi aelodau'r pwyllgor a chymeradwyo polisïau ynglŷn â thalu llog ar gyfranddaliadau ac ail-brynu cyfranddaliadau yn cael eu gwneud gan aelodau'r Gymdeithas ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Rôl y Pwyllgor Rheoli yw sicrhau bod llywodraethu strategol, goruchwyllo, cyfeiriad, a chanllawiau yn cael eu darparu ar draws y Gymdeithas, ac yn benodol y Pwyllgor Gweithredu, er mwyn sicrhau bod y Gymdeithas yn cyflawni ei phwrpas.

Bydd y Pwyllgor Gweithredu yn gyfrifol am gyflawni pob agwedd ar y cynllun busnes a rheoli'n llwyddiannus swyddogaethau busnes allweddol y dafarn ar lefel weithredol. Bydd y pwyllgor yn cynnwys y Rheolwr Cyffredinol unwaith y caiff ei recriwtio, ac aelodau'r Gymdeithas yn cyflawni rolau busnes amrywiol yn ôl y gofyn.

Disgwylir y bydd y pwyllgor gweithredu yn ymgymryd â'r rolau a'r cyfrifoldebau canlynol: -

- Cynhyrchu'r canlynol i aelodau'r gymdeithas - rhagolygon ariannol, adroddiadau, trafodion, llyfrifeg, rhestr gyflogi, llif arian a diweddariadau perfformiad.
- Recriwtio, taliadau, lles a hyfforddiant
- Marchnata, gyrru ymgysylltu â'r gymuned ac ymgysylltu â busnesau
- Cynnal a chadw adeiladau, glanhau, technoleg gosodiadau a ffitiadau (Wi-Fi, man gwerthu ayyb.)
- Sicrhau Ansawdd, adborth cymunedol, awgrymiadau cwsmeriaid, hapwiriadau
- Cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch, safonau hylendid a safonau amgylcheddol
- Rheoli'r sector gwirfoddol sy'n cwmpasu'r caffi, y siop, a defnydd o'r cyfleusterau gan grwpiau cymunedol ayyb

8. Gweithgareddau Allweddol

Mae'r pwyntiau bwled canlynol yn manylu ar weithgareddau allweddol sydd naill ai wedi eu cwblhau neu sydd angen eu cwblhau cyn ailagor fel Y Cross Cas-lai.

- Gosod strwythur cyfreithiol - Cymdeithas Budd Cymunedol
- Penodi a sefydlu pwyllgor rheoli Cychwynnol
- Strwythur llywodraethiant - wedi'i gwblhau
- Cwblhau Cynllun Busnes
- Gwneud cais am Gymeradwyaeth o Flaen Llaw SITR/EIS
- Cael Cymeradwyaeth Marc Safonol ar y ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau
- Rhyddhau'r cynnig cyfranddaliadau cymunedol a chodi'r busddoddiadau angenrheidiol
- Codi'r arian angenrheidiol sy'n weddill drwy grantiau, rhoddion, benthyciadau, a gweithgareddau codi arian
- Trafod prynu'r dafarn a chwblhau hynny
- Recriwtio a phenodi'r Rheolwr Cyffredinol a'r cogydd
- Ffurio'r pwyllgor gweithredu
- Recriwtio a hyfforddi staff
- Cwblhau'r gwaith atgyweirio, yr addasiadau, y gwaith adnewyddu ac ail-osod offer
- Cwblhau brandio a chynnal ymgyrchoedd marchnata
- Sicrhau bod yr holl ofynion trwyddedau a gofynion cydymffurfio ar waith yn barod ar gyfer gweithredu
- Sicrhau bod yr holl weithdrefnau iechyd a diogelwch ar waith a bod yr asesiadau risg wedi eu cwblhau
- Sicrhau bod yr holl yswiriant angenrheidiol yn ei le

9. Y Pwyllgor Rheoli a'r Aelodau Sefydlu

Ffurfiwyd y Pwyllgor Rheoli o blith yr aelodau a sefydlodd y Gymdeithas

Mae'r aelodau sylfaenol yn cynnwys 14 o bobl, ac fe gytunon nhw ar fanylion y Cynllun Busnes a'r Cynnig Cyfranddaliadau hwn yn eu cyfarfod ar 25 Ionawr.

Os yw aelod o'r Pwyllgor Rheoli neu aelod o'u teuluoedd agos yn dymuno ffurfio perthynas fasnachol â'r Gymdeithas, gofynnir iddynt gamu yn ôl o'r Pwyllgor er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau. Mae rheolau'r

Gymdeithas yn manylu ar ddatgan gwrthdaro buddiannau ac awdurdodi gwrthdaro buddiannau o dan rhai amodau .

Dyma aelodau'r Pwyllgor Rheoli:

Geraint Evans (Cadeirydd- Gyfarwyddwr)

Ganwyd a magwyd Geraint ym mhentref Cas-lai. Ef yw'r bumed genhedlaeth o'i deulu i ffermio fferm laeth y teulu, gyda chenedlaethau lawer o'r teulu'n gweithio ochr yn ochr â theulu Phillips o Y Cross i gefnogi'r gymuned leol. Mae Geraint yn un o aelodau gwreiddiol CFFI Cas-lai ac aeth ymlaen i fod yn Gadeirydd CFFI Cymru. Gan redeg ei fenter ffermio ei hun, mae gan Geraint brofiad o reoli cyllidebau yn ôl amodau amrywiol y farchnad, gan weithio i derfynau amser a gweithio oriau hir iawn i gwrdd â'r terfynau amser hynny!

Jeremy Bowen (Is-Gadeirydd - Cyfarwyddwr)

Mae Jeremy'n byw yng Nghroes Cas-lai gyda'i wraig Jill ac mae wedi ymddeol yn ddiweddar ar ôl 25 mlynedd o weithio mewn swyddi uwch reoli manwerthu. Bu'n gweithio am 7 mlynedd mewn gwasanaethau ariannol, gan gynnwys 4 mlynedd fel Cyngorwr Ariannol annibynnol. Am 5 mlynedd bu hefyd yn Ymddiriedolwr ac yn Drysorydd i Gymdeithas Gŵyr (elusen flaenllaw yn Abertawe) ac mae ganddo wybodaeth a phrofiad helaeth o gynllunio strategol a gweithio fel rhan o dimau proffesiynol ar draws llawer o sectorau. Mae Jeremy bob amser yn angerddol am y gymuned y mae'n byw ynddi ac mae'n enwog am sicrhau bod cyfarfodydd pwyllgor yn gorffen erbyn 8.30pm er mwyn iddo allu galw yn Y Cross ar ei ffordd adref!

Mark Austin (Ysgrifennydd - Cyfarwyddwr)

Symudodd Mark a'i wraig Sue i'r pentref ychydig dros 5 mlynedd yn ôl gan ymweld â'r Cross ar eu noson gyntaf. Gweithiodd Mark gyda Chyngor Sir Benfro fel Pennaeth Gwella Ysgolion ar ôl ennill profiad gwerthfawr yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae wedi gweithio'n llwyddiannus gyda llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol i ennill grantiau i ysgolion a sefydliadau eraill i wella eu cyfleusterau a chael effaith ar y ddarpariaeth ar gyfer pobl leol.

Sarah Lewis (Swyddog Cyllid - Cyfarwyddwr)

Mae Sarah yn siarad Cymraeg, ac wedi ei geni yn Sir Benfro i deulu sy'n ffermio ac sy'n mynd yn ôl sawl cenedlaeth. Mae wedi byw yng Nghas-lai ers prïodi Richard ar ddiwedd y 1990au ac mae ganddynt 3 o blant. Mae Sarah wedi cymhwyso yn llyfrifwr, gan weithio gyda masnachwyr annibynnol yn Sir Benfro ac mae hefyd yn gweithio i Ffermwyr Clunderwen a Sir Aberteifi yn eu Pencadlys. Mae hefyd yn Weinyddwr Cyfrifon y Theatr, Rheolwr ar Ddyletswydd a Rheolwr Digwyddiadau yn ystod digwyddiadau byw yn y Theatr Gwaun bywiog yn Abergwaun. Mae Sarah yn angerddol wrth gyd-gynhyrchu digwyddiadau elusennol yn y theatr ac ymgysylltu â cherddorion/actorion/siaradwyr talentog, ac mae'n gwneud hyn yn wirfoddol. Mae hefyd yn Drysorydd i Ganolfan Gymunedol Cas-lai a Fforwm, Cydlynnydd Clwb 100+ y pentref ac mae wedi sefydlu'r prosiect o gynhyrchu'r calendr cymunedol. O ran diddordebau, mae Sarah yn mwynhau cerddoriaeth, yn enwedig cerddoriaeth y piano ac mae'n frwdfrydig iawn dros dwf y Gymraeg, a sgwrsio â dysgwyr brwd. Mae'n angerddol dros ddyfodol ffermio a chynhyrchu bwyd da ac yn dod o hyd i amser i ymarfer yng nghefn gwlad drwy gerdded llwybrau'r brynïau a llwybrau'r arfordir gyda chi defaid y teulu. Mae Sarah yn edrych ymlaen yn fawr iawn at wireddu cynlluniau Y Cross Cas-lai a'r cyfleoedd a ddaw i'r gymuned yn ei sgil.

Clive Hampton (Swyddog Eiddo - Cyfarwyddwr)

Ym mis Mehefin 2010 prynodd Clive a'i wraig Kay Lynfield, eiddo yn y pentref a arferai fod yn Swyddfa Bost, siop bentref a gorsaf betrol. Yn anffodus, mae'r rhain wedi hen gau. Fe wnaethon nhw adnewyddu'r eiddo dros gyfnod o rai blynyddoedd. Symudodd Kay ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, gan ei bod hi'n gweithio fel nyrs Seiciatrig i CAMHS ledled Sir Benfro. Daeth Clive chwe mis yn ddiweddarach, ar ôl cau cwmni adeiladu yng Nghwm Rhondda, lle cafodd y ddau eu magu a lle bu'r ddau yn gweithio. Mae Clive wedi bod yn y busnes adeiladu rhan fwyaf o'i oes ac ar un adeg roedd yn cyflogi tua deg o bobl. Mae Clive wedi prynu nifer o adeiladau dros y 35 mlynedd diwethaf, a oedd naill ai'n cael eu gosod, neu eu gwerthu. Bydd ei gefndir yn y maes hwn yn amlwg yn hanfodol i'r gwaith gwella ac ehangu sydd ei angen, i symud Y Groes i'r cam nesaf.

Mae'r bobl ganlydol i gyd yn aelodau sylfaenol y Gymdeithas.

Kay Thomas (Swyddog Cyswllt)

Yn 1977 symudodd Kay a'i gŵr i Gas-lai o Gaerdydd yn dilyn penodi ei gŵr yn anesthetydd ymgynghorol yn Ysbyty Llwynhelyg. Gan nad oedden nhw'n adnabod unrhyw un o Sir Benfro, roedden nhw eisiau symud i bentref bach Cymraeg heb fod yn rhy bell o'r ysbyty ac yn sicr roedd Cas-lai yn ateb y gofyn. Athrawes sydd wedi ymddeol yw Kay, ac mae hi a'r teulu i gyd yn siarad Cymraeg. Ymysg ei diddordebau mae cerdded a cherddoriaeth, a hi sy'n canu'r piano i grŵp dawn lleol ac mae wedi bod yn weithgar gyda chymdeithas hanes y pentref. Mae Kay a'r teulu wedi gwneud ffrindiau da iawn ac wedi mwynhau bod yn rhan o amrywiaeth o ddigwyddiadau sydd wedi cael eu cynnal yn y pentref. Byddent yn drist o weld y dafarn yn cau gan fod ganddynt lawer o atgofion a straeon gwych i'w hadrodd am y digwyddiadau a gynhaliwyd yno dros y blynyddoedd!

Alyson Moules (Swyddog Cymunedol a Digwyddiadau)

Symudodd Alyson o Dde Sir Benfro i Groes Cas-lai yn 2008 ac mae'n byw drws nesaf i'r Cross Inn. Mae wedi cael gyrfa amrywiol iawn o addysgu Addysg Gorfforol i redeg Canolfan Iechyd a Ffitrwydd ei hun, o addysgu dawn a ffitrwydd i ddatblygu chwaraeon ac yna yn swyddog addysg gymunedol. Yna dychwelodd i'r byd addysg i fod yn athrawes gynorthwyo ymddygiad ac yn olaf fel CALU yn Ysgol Gymunedol Prendergast. Erbyn hyn mae'n mwynhau ei hymddeoliad ac mae hi'n cefnogi'n llwyr menter Cross Inn i fod yn dafarn a hwb cymunedol - bydd Y Cross yn gwbl allweddol i ffyniant y pentre. Mae'n ystyried gwasanaethu ar bwyllgor mor frwdfrydig yn fraint a her gyffrous. Mae'n cymysgu â nifer o grwpiau ym maes ffitrwydd ac mae'n gobeithio denu gweithgareddau amrywiol a fydd yn apelio at bobl o bob oed, lliw a llun.

Owen Roberts (Swyddog TG)

Wedi ei eni a'i fagu yn Sir Benfro symudodd Owen i Groes Cas-lai gyda'i wraig Helen yn 2006. Mae gan Owen 2 fab ac mae'n mwynhau mynd i'r Cross Inn yn rheolaidd i chwarae dartiau ac i wyllo gemau Rygbi a Phêl-droed pan fydd Cymru'n chwarae. Mae Owen wedi gweithio i Gyngor Sir Benfro ers 20 mlynedd ar sawl prosiect gwahanol ac ar hyn o bryd mae'n gyfrifol am gydyntu cludiant teithwyr. Mae Owen hefyd yn ymddiriedolwr Clwb Pêl-droed Clarbeston Road lle mae'n swyddog diogelu, yn hyfforddi'r plant iau ac yn helpu gyda hyrwyddo a marchnata digwyddiadau codi arian. Yn ystod y 12 mis diwethaf mae Owen hefyd wedi bod yn gyfrifol am wefan Fforwm Gymunedol Cas-lai ac mae'n aelod o'r fforwm.

Judith Roach (Swyddog Marchnata)

Mae Judith, un o gyn-breswylwyr Cas-lai, yn byw yn Pelcomb Bridge gyda'i gŵr Alwyn. Mae hi'n rhedeg ei busnes defnyddiau ysgrifennu annibynnol ei hun ar ôl 28 mlynedd yn gweithio i Gyfoeth Naturiol Cymru a'i ragflaenwyr. Mae hi hefyd wedi gweithio fel cydlynnydd cynadleddau yng Ngwesty Gleneagles gan fod yn rhan o dîm a drefnodd gynhadledd NATO a digwyddiadau corfforaethol mawr. Mae hi hefyd yn llywodraethwr ysgol, yn wirfoddolwr sy'n trefnu Marchnadoedd Gwledig bob blwyddyn i gymdeithas amaethyddol leol, yn aelod gweithgar o Eglwys ei Phlwyf ac yn angerddol am bopeth yn ymwneud â'r gymuned.

Jayne Evans (Swyddog Strategaeth a'r Iaith Gymraeg)

Symudodd Jayne i Gas-lai ar ei phriodas â Geraint ym 1995. Wedi gweithio ym myd addysg yn ystod ei gyrfa broffesiynol, bu'n Bennaeth ysgol gynradd leol am dros ugain mlynedd. Erbyn hyn, mae hi bellach wedi lled-ymddeol, ac mae'n mwynhau addysgu Cymraeg i oedolion ledled Sir Benfro ac addysgu'n rhithwir ledled y byd. Mae profiad proffesiynol Jayne yn cynnwys creu a monitro cynlluniau datblygu, rheoli cyllidebau, paratoi ceisiadau grant, ac ysgogi, arwain, a rheoli pobl. Mae hi'n falch o gefnogi ymdrechion aelodau'r gymuned i brynu Y Cross. Hir oes i'r Cross!

Mike Hillier (Swyddog Strategaeth)

Mae Mike a'i wraig Anne wedi byw yn y pentref ers 30 mlynedd. Symudodd rhieni Mike i Gas-lai yn 1963 ac yn 1969 fe wnaeth fwynhau ei beint cyntaf yn Y Cross gyda'i dad. Ymddeolodd Mike 6 mlynedd yn ôl ar ôl gweithio fel peiriannydd proffesiynol am 45 mlynedd yn y diwydiant olew yn y DU a thramor. Mae Mike yn dod â chyfoeth o brofiad o gyflawni prosiectau mawr o fewn amserlenni tynn a chyfyngiadau cyllidol. Y brif wers y mae wedi'i dysgu dros y blynyddoedd yw mai pobl dda yw'r ased pwysicaf mewn unrhyw fenter.

Jon Archer - (Swyddog Lletygarwch)

Yn byw yn Brimaston gyda'i wraig Jacqui. Cyn-Brif Fragwr Bragdy Boot Beer ac aelod o'r uwch dîm rheoli yng ngrŵp tafarndai Bespoke Inns yn Swydd Derby, a oedd yn cynnwys The Boot Inn, Repton, cyn-Tafarn y Flwyddyn yr AA (Lloegr) a bwyty gyda rhesed 2** yr AA. Roedd Jon yn rhan o bob agwedd ar weithrediadau bywd a diod y tafarndai ac arweiniodd strategaeth y grŵp o ran diodydd gan gynnwys rheoli seler a bar,

ansawdd, a hyfforddiant. Roedd yn allweddol pan gafodd y dafarn ei chynnwys yn y Good Pub Guide a phan gafodd ei chynnwys yn barhaus yn y CAMRA Good Beer Guide; mae wedi ennill amryw o wobrau am ei gwrw gan gynnwys Cwrw Gorau Prydain CAMRA (Arian). Cyn ei gyfnod ym maes lletygarwch, treuliodd Jon 33 mlynedd yn gweithio i gwmni TG byd-eang mewn swyddi Cyfrif a Rheoli Gwasanaethau ar draws sectorau CThEM, y GIG, lletygarwch, a manwerthu. Mae Jon yn rhagweld tafarn lewyrchus, gynnes a chroesawgar wrth galon y gymuned, sy'n cael ei chydabod am weini'r cwrw iawn lleol gorau, cwrw crefft a bywden gyffrous o gynnyrch tymhorol ffres a fforddiadwy. Mae ef fwyaf hapus yn sôn am ei hoff bwnc... cwrw!

Glenn Rees (Swyddog Lletygarwch)

Symudodd Glen i bentref Croes Cas-lai 22 mlynedd yn ôl gyda'i bartner Christyna. Mae wedi gweithio ym maes lletygarwch am y 35 mlynedd diwethaf, gan redeg amryw o sefydliadau h.y., Gwestai, Bwytai, a'i fusnes ei hun. Cyflawnodd Ardystiad Cwrs Rheoli Lletygarwch gyda chwmni yn Swydd Rhydychen. Ar hyn o bryd mae'n gweithio yn Bluestone National Park Resort, ar ôl dal amryw o swyddi uwch. Mae'n bwriadu ymddeol ym mis Gorffennaf. Mae'n honni mai ei gamp fwyaf nodedig oedd iddo unwaith achub bywyd merch ifanc yn Aber Bae Ogwr.

Ian Breslin (Swyddog TG)

Ar hyn o bryd mae Ian yn gweithio i fanc Barclays ac yn methu aros i ymddeol! Mae Ian, ei wraig Nikki, a'u meibion wedi bod yn ymweld â Cas-lai ac arfordir Gorllewin Cymru ers 30 mlynedd. Mae'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r prosiect hwn a'i ddefnyddio fel cyfle i ddod i adnabod mwy o bobl yn y pentref a'r gymuned. Mae diddordebau Ian yn cynnwys garddio, ceir, a phêl-droed.

10. Sut i Ymgeisio am Gyfranddaliadau

SUT I WNEUD CAIS -CANLLAW CYFLYM CAM WRTH GAM

- Darllenwch y ddogfen hon yn ei chyfanrwydd.
- Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Cynllun Busnes a dogfennau Rhagolwg Ariannol yn www.ycrossinn.cymru
- Cymerwch gyngor ariannol annibynnol
- Peidiwch â buddsoddi mwy nag y gallwch ei fforddio
- Llenwch y ffurflen gais amgaeedig. Mae rhagor o gopiâu ar gael yn www.ycrossinn.cymru
- Defnyddiwch yr amlen Business Reply ragdaledig neu dychwelwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau mewn amlen wedi'i selio i gyrraedd cyn dyddiad cau y cynnig cyfranddaliadau.

Anfonwch eich cais wedi'i gwblhau, wedi ei lofnodi a'i ddyddio, mewn amlen wedi'i selio i;

Y Cross Cas-lai Community Benefit Society Ltd.,
at sylw The Cross Inn
Croes Cas-lai
Hwlfordd
SA62 5PR

Rhybudd Pwysig

Dylid darllen y ddogfen hon yn ei chyfanrwydd. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r camau y dylech eu cymryd, argymhellir eich bod yn gofyn am eich cyngor ariannol annibynnol eich hun. Nid oes dim yn y ddogfen hon yn gyfystyr â chyngor buddsoddi, cyngor treth, cyngor cyfreithiol na chyngor arall gan y Gymdeithas, ei haelodau sy'n ffurfio'r Pwyllgor Rheoli na'u cynghorwyr.

Rhaid darllen y pwyntiau canlynol am y cynnig cyfranddaliadau cyn penderfynu a ydych am gymryd rhan:

1. Pan fyddwch chi'n ystyried prynu cyfranddaliadau mae'n hanfodol eich bod chi'n deall mai buddsoddiad yn ein cymuned yw hwn, gyda'r bwriad o greu ased diogel a pharhaol i ni i gyd. Rydym o'r farn mai

buddsoddiad hirdymor yw hwn gydag elw ariannol cymedrol. Ar ôl blwyddyn 5 mae'n bosib y bydd cyfleoedd i godi rhywfaint o gyfalaf, ond mae disgwyl i'r rhan fwyaf o gyfranddalwyr adael eu harian gyda'r Gymdeithas am flynyddoedd lawer.

2. Y bwriad yw adeiladu ar ein sylfeini cymdeithasol a helpu creu cymuned ffyniannus a chynaliadwy. Nid buddsoddiad confensiynol yw hwn, ac ni ddylech ddisgwyl elw ariannol mawr nac uniongyrchol. Mae gwybodaeth lawn wedi'i nodi yn rheolau'r Pwyllgor sydd ar gael ar ein [gwefan](#)

Sylwer:

- a) Ni all gwerth cyfranddaliadau gynyddu y tu hwnt i'w gwerth gwreiddiol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai gwerth cyfranddaliadau leihau os nad yw'r busnes yn llwyddiannus.
- b) Fel buddsoddwyr, mae eich atebolrwydd wedi'i gyfyngu i werth eich cyfranddaliadau. Mae'n annhebygol y bydd y busnes yn methu ond os bydd hyn yn digwydd ni fyddai gennych unrhyw atebolrwydd pellach.
- c) Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn bwriadu ystyried talu llog ar gyfranddaliadau ar ôl cwblhau'r drydedd flwyddyn o fasnachu a galluogi cyfranddalwyr i godi buddsoddiadau ar ôl y bumed flwyddyn. Mae rheolau'r Pwyllgor yn caniatáu atal taliadau llog os nad yw perfformiad ariannol y Pwyllgor yn cyfiawnhau taliad o'r fath. Mae rhagamcanion ariannol manwl ar gyfer perfformiad y Pwyllgor wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes a'r Cynllun Cyllidebau Ariannol annibynnol.
- d) Yr unig ffordd y gall unigolyn adennill buddsoddiadau (p'un ai y swm cychwynnol neu swm sy'n werth llai), heblaw taliadau llog neu ad-daliadau cyffredinol, yw iddo hysbysu'r Gymdeithas ei fod yn bwriadu codi'r arian. Ni all hyn ddigwydd yn ystod y pum mlynedd gyntaf ar ôl dyddiad rhyddhau'r cyfranddaliadau hyn.

Mae'r amodau penodol ar gyfer codi arian yn cynnwys:

- e) Rhaid i'r arian sy'n cael ei godi gael ei gyllido gan arian masnachu sy'n weddill neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd. Mae'n amodol ar farn y Gymdeithas fod codi'r arian yn unol â buddiannau'r Pwyllgor yn y tymor hir.
- f) Mae'r cyfanswm sy'n ad-daladwy bob blwyddyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o 10% o werth presennol y cyfranddaliadau.
- g) Rhaid rhoi tri mis o rybudd..
- h) Bydd yr holl arian a fuddsoddir yn y cynnig cyfranddaliadau hwn yn cael ei gadw yng nghyfrif banc Y Cross Cas-lai ac fe'i defnyddir yn unig at ddibenion prynu tafarn Y Cross Cas-lai, i adnweyddu cyfleusterau'r dafarn, ar gyfer cyfalaf gweithio ac ar gyfer costau a ysgwyddir wrth lansio a gweinyddu'r prosiect. Os na fydd prynu'r eiddo yn mynd rhagddo, bydd pob cyfraniad yn cael ei ad-dalu namyn costau a ysgwyddir.
- i) i) Yn y pen draw, penderfyniad CTHEM yw rhoi Rhyddhad Treth Buddsoddi Cymdeithasol / EIS. Er bod y Gymdeithas wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw beth yn y cynnig cyfranddaliadau hwn nac yn y ffordd y bydd yr elw'n cael ei ddefnyddio yn groes i reolau Rhyddhad Treth SITR EIS, (ac wedi gofyn am Sicrwydd Uwch gan CTHEM ar y sail honno), nid yw'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fethiant gan fuddsoddwyr unigol i adennill treth mewn perthynas â'u buddsoddiadau. . Yn ogystal, eu cyfrifoldeb unigol nhw fydd sicrhau bod yr wybodaeth ynglŷn â statws treth a fydd wedi'i ddarparu ganddynt wrth wneud eu buddsoddiad yn gywir.
- j) Mae Y Cross Cas-lai wedi ei gofrestru yn gymdeithas gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ond nid yw gwerthu cyfranddaliadau cymunedol yn cael ei reoleiddio gan yr FCA. Fel llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol mewn perygl, a gallech gollu'r holl arian rydych yn ei fuddsoddi neu ran ohono. Yn wahanol i gyfrifon banciau'r stryd fawr, nid yw cyfranddaliadau cymunedol yn dod o dan y Cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol, ac nid oes chwaith unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsman Ariannol. Os ydych yn ystyried buddsoddi swm sylweddol, yna efallai y byddwch yn yn dymuno gofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.

Cymdeithas Budd Cymunedol Cyf. Y Cross, Cas-lai

Ffurflen Gais Cynnig Cyfranddaliad

Mae'r ffurflen hon yn ymgorffori Cais am Gyfranddaliadau yng Nghymdeithas Budd Cymunedol Cyf Y Cross Cas-lai

Enw'r Ymgeisydd Cyntaf *

Cyntaf

Cyfenw

Enw Cyd-Ymgeisydd (enw'r prif ymgeisydd yn unig fydd yn ymddangos ar y cofrestr aelodau a'r prif ymgeisydd yn unig fydd â hawl i bleidleisio)

Cyntaf

Cyfenw

Enw'r Cwmni neu Sefydliad (os yn ymgeisio ar ran Grŵp neu Gorff Corfforaethol)

Cyfeiriad *

Cyfeiriad Llinell 1

Dinas

Gwlad / Rhanbarth / Sir / Ardal

Cod Post *

Gwlad

Rhif ffôn

E-bost *

Os yn prynu ar ran plentyn (o dan 16 mlwydd oed) dylid cynnwys:

Enw llawn y plentyn

Dyddiad geni

(*) Gorfodol

Cymdeithas Budd Cymunedol Cyf. Y Cross, Cas-lai

Ffurflen Gais Cynnig Cyfranddaliad

£50 yw pris pob cyfranddaliad. Lleiafswm y cyfranddaliadaeth fydd pump cyfranddaliad (£250) a'r mwyafswm fydd pum cant cyfranddaliad (£25,000) (lluosrifau £50). Dymunaf ymaelodi â Chymdeithas Budd Cymunedol Y Cross Cas-lai Cyf yn unol â'r Rheolau a chyflwynaf gais am:

Nifer y cyfranddaliadau y dymunaf ymgeisio amdanynt

Cyfanswm (mewn £oedd)

Datganaf fy mod yn hŷn na 16 mlwydd oed ac fy mod **wedi darllen y Ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau a'i deall.** Cytunaf y gellir cadw'r canlynol ar ffurf bas data electronig: fy enw, fy nghyfeiriad, fy rhif ffôn, fy nghyfeiriad e-bost, nifer y cyfranddaliadau a brynwyd. Defnyddir yr wybodaeth hon i gadw cofrestr aelodau a chyfranddaliadau yn unol â Rheolau'r Gymdeithas ac i gyfathrebu â nhw am weithgareddau Y Cross Cas-lai. Cedwir yn gyfrinachol wybodaeth o'r swm a fuddsoddir ac ni drosglwyddir unrhyw wybodaeth i drydydd parti. Cofiwch fuddsoddi dim ond yr hyn y gallwch ei fforddio.

Rhaid i bob ymgeisydd arwyddo

Llofnod

Enw (llythrennau bras)

Dyddiad

Ystyrir eich cais pan dderbynnir y ffurflen hon wedi'i chwblhau a thaliad llawn am y cyfranddaliadau yn unol â'ch cais. Rhaid i bob cais a thaliad ddod i law cyn y dyddiad cau. Cedwir pob hawl gan y Gymdeithas i derfynu'r Cynnig Cyfranddaliadau cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd. I leihau costau gweinyddol anfonir derbyniadau dros e-bost lle bo hynny'n bosibl a rhoddir tystysgrifau cyfranddaliadau maes o law. Ein prif modd o gyfathrebu fydd dros e-bost i leihau costau gweinyddol. Defnyddir eich cyfeiriad post os nad oes gennych ddefnydd e-bost.

Anfonwch y ffurflen gais i;

Y Cross Cas-lai Community Benefit Society Ltd.,
at sylw The Cross Inn, Croes Cas-lai, Hwlfordd. SA62 5PR

Neu gallwch ddodi'r ceisiadau dan sêl ym mlwch diogel Blwch Post Cymuned y Cross sydd yn y cyfeiriad uchod (nid Blwch coch y Post Brenhinol).

Dulliau talu - PEIDIWCH AG ANFON ARIAN PAROD

Drwy drosglwyddiad Banc (gan ddefnyddio llinell gyntaf eich cyfeiriad yn gyfeirnod)

Enw'r cyfrif: **Y Cross Caslai CBS Ltd**

Cod didoli: **08-92-99**

Rhif y Cyfrif: **67279243**

Drwy siec- Gnewch y sieciau yn daladwy i: Y Cross Cas-lai Community Benefit Society Ltd

Byddwn yn cydnabod ceisiadau dros e-bost. Os na fyddwn wedi cydnabod eich cais o fewn wythnos o'i gyflwyno, cysylltwch â ni ar www.ycrossinn.cymru.

NODIADAU:



Cymdeithas Budd Cymunedol Y Cross Cas-lai
at sylw The Cross Inn
Croes Cas-lai
Hwlfordd
SA62 5PR

enquiries@ycrossinn.cymru
<http://www.ycrossinn.cymru>